# GORCHYMYN CYNGOR SIR YNYS MÔN/ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL (GORCHYMYN RHEOLI TRAFFIG) (AMRYW LEOLIADAU, AMLWCH) 2015

Trwy hyn mae Cyngor Sir Ynys Môn wrth arfer ei bwerau dan adrannau 1, 2, 4, 32, 35, 124 (1) (d) a Rhan IV o Atodlen 9 i Ddeddf Rheoli Traffig y Ffyrdd 1984 (Deddf 1984) fel y newidiwyd a Deddf Traffig y Ffyrdd 1991 (Deddf 1991) a holl bwerau galluogi eraill, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i'r Ddeddf, yn gwneud y Gorchymyn canlynol.

## ADRAN 1 – RHAGARWEINIOL

Enwi a chychwyn

1 Bydd i'r Gorchymyn hwn ddod i rym ar 12fed Mehefin, 2015 a'i enwi fel GORCHYMYN CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL (GORCHYMYN RHEOLI TRAFFIG) (AMRYW LEOLIADAU, AMLWCH) 2015

2. Ymgorfforwyd Cynlluniau (y "Cynlluniau") Gorchymyn Cyngor Sir Ynys Môn / Isle of Anglesey County Council (Gorchymyn Rheoli Traffig) (Amryw Leoliadau, Amlwch) 2015.

Dehongli

3. Yn y Gorchymyn hwn, heblaw lle mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall, ystyr yr ymadroddion canlynol yw'r hyn a roddwyd iddynt yn ôl eu trefn trwy hyn:

Ystyr "Cyngor" yw Cyngor Sir Ynys Môn ac mae'n cynnwys unrhyw gontractwyr gwasanaethau parcio neu asiant awdurdodedig a benodwyd gan neu'n gweithredu ar ran y Cyngor at ddibenion unrhyw swyddogaeth yn ôl darpariaethau'r Gorchymyn hwn;

Ystyr "swyddog penodedig" yw un o swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn a enwebwyd gan Gyfarwyddwr Corfforiaethol

# CYNGOR SIR YNYS MÔ N/THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL (TRAFFIC REGULATION ORDER) (VARIOUS LOCATIONS, AMLWCH) ORDER 2015

The Isle of Anglesey County Council in exercise of its powers under sections 1, 2, 4, 32, 35, 124 (1) (d) and Part IV of Schedule 9 of the Road Traffic Regulation Act 1984 (the Act of 1984) as amended and the Road Traffic Act 1991 (the Act of 1991) and of all other enabling powers, and after consultation with the Chief Officer of Police in accordance with Part III of Schedule 9 to the Act, hereby makes the following Order.

## SECTION 1 – PRELIMINARY

Citation and commencement

1 This Order shall come into operation on the 12th June, 2015 and may be cited as CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL (TRAFFIC REGULATION ORDER) (VARIOUS LOCATIONS, AMLWCH) ORDER 2015

2. Cyngor Sir Ynys Môn / Isle of Anglesey County Council (Traffic Regulation Order) (Various Locations, Amlwch) Order 2015 plans ("the Plans") are incorporated into this Order.

Interpretation

3. In this Order, except where the context otherwise required, the following expressions have the meaning hereby respectively assigned to them:

"Council" means The Isle of Anglesey County Council and includes any parking services contractors or authorised agent appointed by or acting on behalf of the Council for the purposes of any function under the provisions of this Order;

"designated officer" means an officer of The Isle of Anglesey County Council nominated by the Director of Environment and

y Gwasanaethau Amgylchedd a Thechnegol neu gyfartal i gynnal swyddogaethau'r Cyngor cysylltiedig â darpariaethau'r Gorchymyn hwn;

Mae ystyr "bathodyn rhywun anabl" yr un ag yn Rheoliadau Pobl Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000; a Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau i Bobl Anabl) (Cymru) 2000;

Ystyr "cerbyd rhywun anabl" yw cerbyd sy'n dangos bathodyn rhywun anabl yn y lle perthnasol ac a ddefnyddiwyd yn union cyn neu sydd ar fin cael eu defnyddio gan y bwy bynnag a gafodd y bathodyn;

Ystyr "gyrrwr", mewn perthynas â cherbyd sy'n aros mewn ardal gyfyngedig, yw pwy bynnag sy'n gyrru'r cerbyd ar adeg ei adael yn y man aros cyfyngedig;

Ystyr "deddfiad" yw unrhyw ddeddfiad, boed yn gyhoeddus, cyffredinol neu leol, ac mae'n cynnwys unrhyw orchymyn, is-ddeddf, rheol, rheoliad, cynllun neu offeryn arall sydd mewn grym yn rhinwedd deddfiad;

Ystyr "nwyddau" yw nwyddau o unrhyw fath boed yn fyw neu'n ddifywyd ac maent yn cynnwys pecynnau post o unrhyw ddisgrifiad ac mae "danfon" a "chasglu" mewn perthynas ag unrhyw nwyddau'n cynnwys gwirio'r nwyddau at ddiben eu danfon neu gasglu;

Ystyr "cerbyd cludo nwyddau" yw cerbyd modur a adeiladwyd neu a addaswyd i'w ddefnyddio i gludo nwyddau neu lwyth o unrhyw ddisgrifiad gydag uchder llawn heb fod yn fwy na 2.3 metr a hyd llawn heb fod yn fwy na 5.25 metr a heb fod yn tynnu ôl-gerbyd;

Mae ystyr "cerbyd hur" yr un ag yn Adran 38 o Ddeddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847;

Technical Services or equivalent to carry out Council functions associated with the provisions of this Order;

"disabled person's badge" has the same meaning as in the Disabled Persons (Badges for Motor Vehicles) (Wales) Regulations 2000; and the Local Authorities' Traffic Orders (Exemptions for Disabled Persons) (Wales) Regulations 2000;

"disabled persons vehicle" means a vehicle displaying in the relevant position a disabled persons badge and which has been used immediately before or is about to be used by the person(s) in respect of whom the badge has been issued;

"driver" in relation to a vehicle waiting in a restricted area, means the person driving the vehicle at the time it was left in the restricted waiting area;

"enactment" means any enactment, whether public , general or local, and includes any order, byelaw rule, regulation, scheme or other instrument having effect by virtue of an enactment;

"goods" means goods of any kind whether animate or inanimate and includes postal packets of any description and "delivering" and "collecting" in relation to any goods includes checking the goods for the purpose of their delivery or collection;

"goods carrying vehicle" means a motor vehicle which is constructed or adapted for use for the carriage of goods or burden of any description the overall height of which does not exceed 2.3 metres and the overall length of which does not exceed 5.25 metres and is not drawing a trailer;

"hackney carriage" has the same meaning as in Section 38 of the Town Police Clauses Act 1847;

Ystyr "safle cerbydau hur" yw rhan o ffordd gerbydau sy'n cael ei nodi gyda marciau ffordd yn cydymffurfio â diagram 1028.2 yn Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2002;

Mae ystyr "cerbyd claf" yr un ag yn Adran 136 o Ddeddf 1984;

Ystyr "parth llwytho" yw unrhyw un o ochrau neu ddarnau o ffyrdd a nodwyd yn yr Atodlen ac ar y Cynlluniau lle gwaharddwyd gweithgareddau heblaw llwytho;

Mae ystyr "beic modur" yr un ag yn Adran 136 o Ddeddf 1984;

Ystyr "oriau dim llwytho" mewn perthynas ag unrhyw ffordd dim llwytho yw'r oriau pan fo cyfyngiad ar lwytho a dadlwytho yn yr Atodlen ac ar y Cynlluniau;

Ystyr "ffordd dim llwytho" yw unrhyw un o ochrau neu ddarnau o ffyrdd a nodwyd yn yr Atodlen ac ar y Cynlluniau lle mae cyfyngiad ar lwytho ond na fydd i'r ymadrodd "ffordd dim llwytho" gynnwys unrhyw fan parcio;

Ystyr "oriau dim stopio" mewn perthynas ag unrhyw ffordd dim stopio yw'r oriau pan fo cyfyngiad ar stopio yn yr Atodlen ac ar y Cynlluniau;

Ystyr "ffordd dim stopio" yw unrhyw un o ochrau neu ddarnau o ffyrdd a nodwyd yn yr Atodlan ac yn y Cynlluniau lle mae gwaharddiad ar stopio ond na fydd i'r ymadrodd "ffordd dim stopio" gynnwys unrhyw fan parcio;

Ystyr "stryd unffordd" yw priffordd lle mae gwaharddiad ar yrru cerbydau heblaw i un cyfeiriad;

Ystyr "perchennog", mewn perthynas â cherbyd, yw pwy bynnag sy'n cadw ac yn defnyddio'r cyfryw gerbyd. Wrth benderfynu pwy oedd y perchennog ar unrhyw adeg bydd yn cael ei dybio mai'r perchennog oedd y sawl a enwir yn nogfen

"hackney carriage stand" means an area of carriageway which is indicated by road markings complying with diagram 1028.2 in the Traffic Signs Regulations and General Directions 2002;

"invalid carriage" has the same meaning as that in S136 of the Act of 1984;

"loading area" means any of the sides or lengths of roads specified in the Schedule and on the Plans where activities other than loading are prohibited;

"motor-cycle" has the same meaning as that in S136 of the Act of 1984;

"no loading hours" means in relation to any no loading road the hours during which loading and unloading is restricted in the Schedule and on the Plans;

"no loading road" means any of the sides or lengths of roads specified in the Schedule and on the Plans where loading is restricted provided that the expression "no loading road" shall not include any parking place;

"no stopping hours" means in relation to any no stopping road the hours during which stopping is restricted in the Schedule and on the Plans;

"no stopping road" means any of the sides or lengths of roads specified in the Schedule and on the Plans where stopping is prohibited provided that the expression "no stopping road" shall not include any parking place;

"one-way street" means a highway in which the driving of vehicles otherwise than in one direction is prohibited;

"owner" in relation to a vehicle, means the person by whom such vehicle is kept and used. In determining who was the owner at any time it shall be presumed that the owner was the person named in the vehicle registration document as the registered

gofrestru'r cerbyd fel ceidwad cofrestredig y cerbyd neu'r sawl sy'n defnyddio'r cyfryw gerbyd yn ystod ei gyflogaeth / ei chyflogaeth ac sydd â hawl i ddefnyddio'r cyfryw gerbyd fel petai ef / hi yn geidwad cofrestredig ohono;

keeper of the vehicle or the person who has the use of such vehicle in the course of his / her employment and who is entitled to use such vehicle as though he / she were the registered keeper thereof;

Ystyr "swyddog parcio / swyddog gorfodi sifil" yw rhywun a gyflogwyd yn unol ag adran 63A o Ddeddf 1984 i ymgymryd â'r swyddogaethau ynddi;

"parking attendant / civil enforcement officer" means a person employed in accordance with section 63A of the Act of 1984 to carry out the functions therein;

Mae ystyr "disg parcio" yr un ag yn Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau i Bobl Anabl) (Cymru) 2000;

"parking disc" has the same meaning as in the Local Authorities Traffic Orders (Exemptions for Disabled Persons)(Wales) Regulations 2000;

Ystyr "man parcio" yw rhan o briffordd a ddynodwyd trwy'r Gorchymyn hwn ar gyfer aros cerbydau o ddosbarthiadau penodol;

"parking place" means an area of a highway designated by this Order for the waiting of vehicles of specific classes;

Ystyr "cerbyd teithwyr" yw cerbyd modur (heblaw beic modur neu gerbyd claf) a adeiladwyd neu a addaswyd yn unig i gludo dim mwy na deuddeg o deithwyr (heb gynnwys y gyrrwr) a'u heiddo a heb fod yn tynnu ôl-gerbyd;

"passenger vehicle" means a motor vehicle (other than a motor-cycle or invalid carriage) constructed or adapted solely for the carriage of not more than twelve passengers (exclusive of the driver) and their effects and not drawing a trailer;

Ystyr "hawlen" yw hawlen a gyhoeddwyd gan y Cyngor;

"permit" means a permit issued by the Council;

Ystyr "deiliad hawlen" yw rhywun a gafodd hawlen yn ôl darpariaethau'r Gorchymyn hwn;

"permit holder" means a person to whom a permit has been issued under the provisions of this Order;

Ystyr "oriau a ganiateir" yw'r cyfnodau penodedig ar gyfer pob man parcio pryd y caniateir i gerbydau o ddosbarth penodol aros fel y manylwyd yn yr Atodlen ac ar y Cynlluniau;

"permitted hours" means the periods specified for each parking place during which waiting by vehicles of a specific class is permitted as specified in the Schedule and on the Plans;

Ystyr "oriau gwaharddedig" mewn perthynas ag unrhyw ffordd waharddedig yw'r oriau pryd y gwaherddir aros neu lwytho fel y manylwyd yn yr Atodlen ac ar y Cynlluniau;

"prohibited hours" means in relation to any prohibited road the hours during which waiting or loading is prohibited as specified in the Schedule and on the Plans;

Ystyr "ffordd waharddedig" yw unrhyw un o ochrau neu ddarnau o ffyrdd a nodwyd yn yr Atodlen ac ar y Cynlluniau lle gwaharddwyd aros ond na fydd i'r ymadrodd "ffordd waharddedig" gynnwys

"prohibited road" means any of the sides or lengths of roads specified in the Schedule and on the Plans where waiting is prohibited provided that the expression "prohibited road" shall not include any parking place;

unrhyw fan parcio;

Mae ystyr "man perthnasol" o ran: -
(a) bathodyn yr anabl a disg parcio yr un ag yn Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau i Bobl Anabl) (Cymru) 2000;

"relevant position" in respect of: -
(a) a disabled person's badge and parking disc has the same meaning as in the Local Authorities' Traffic Orders (Exemptions for Disabled Persons) (Wales) Regulations 2000;

(b) hawlen yn golygu ei dangos ar sgrin wynt, dangosfwrdd neu ffasgia'r cerbyd neu, lle nad oes gan y cerbyd sgrin wynt, dangosfwrdd na ffasgia, mewn lle amlwg ar y cerbyd fel bod cyfan y wybodaeth ar flaen yr hawlen yn hollol ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd; ac

(b) a permit means exhibited on the windscreen, dashboard or fascia of the vehicle or, where the vehicle does not have a windscreen, dashboard or fascia, in a conspicuous position on the vehicle so that the whole of the information on the front of the permit is clearly legible from outside the vehicle; and

ystyr "oriau cyfyngedig" mewn perthynas ag unrhyw ffordd gyfyngedig yw'r oriau pryd y cyfyngir ar aros fel y manylwyd yn yr Atodlen ac ar y Cynlluniau;

"restricted hours" means in relation to any restricted road the hours during which waiting is restricted as specified in the Schedule and on the Plans;

ystyr "ffordd gyfyngedig" yw unrhyw un o ochrau neu ddarnau o ffyrdd a nodwyd yn yr Atodlen ac ar y Cynlluniau lle cyfyngir ar aros neu ar weithgareddau penodol yn ystod yr oriau cyfyngedig ond na fydd i'r ymadrodd "ffordd gyfyngedig" gynnwys unrhyw fan parcio;

"restricted road" means any of the sides or lengths of roads specified in the Schedule and on the Plans where waiting is restricted or specific activities are restricted during the restricted hours provided that the expression "restricted road" shall not include any parking place;

mae ystyr "system delathrebu" yr un ag yn Neddf Telathrebu 1984 (c. 12).

"telecommunication system" has the same meaning as in the Telecommunications Act 1984 (c.12).

4. Bydd i unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Erthygl rifedig, oni bai fod y cyd-destun yn mynnu fel arall, gael ei ddehongli fel cyfeiriad at yr Erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn ac mae unrhyw gyfeiriad at Gynllun yn gyfeiriad at Gynllun a ymgorfforwyd yn y Gorchymyn hwn.

4. Any reference in this Order to a numbered Article shall, unless the context requires otherwise, be construed as a reference to the Article bearing that number in this Order and any reference to a Plan is a reference to a Plan incorporated into this Order.

5. Bydd i unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at unrhyw ddeddfiad gael ei ddehongli fel cyfeiriad at y deddfiad hwnnw fel y newidiwyd, cymhwyswyd, cydgrynhowyd, ail-ddeddfwyd trwy neu'n effeithiol yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad dilynol.

5. Any reference in this Order to any enactment shall be construed as a reference to that enactment as amended, applied, consolidated, re-enacted by or as having effect by virtue of any subsequent enactment.

## ADRAN 2 – GWAHARDD A CHYFYNGU AR AROS

Gwahardd Aros

6. Heblaw fel y darparwyd yn Erthyglau 12 i 15, 17 i 18 ac 20 ni fydd i neb, heblaw yn ôl cyfarwyddyd neu gyda chaniatâd swyddog parcio / swyddog gorfodi sifil mewn lifrai neu swyddog yr heddlu mewn lifrai, beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar unrhyw adeg ar unrhyw ffordd waharddedig a nodwyd yn yr Atodlen ac ar y Cynlluniau.

Cyfyngu ar aros

7. Heblaw fel y darparwyd yn Erthyglau 12 i 15, 17 i 18 ac 20 ni fydd i neb, heblaw yn ôl cyfarwyddyd neu gyda chaniatâd swyddog parcio / swyddog gorfodi sifil mewn lifrai neu swyddog yr heddlu mewn lifrai, beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar unrhyw ffordd gyfyngedig yn ystod yr oriau cyfyngedig a nodwyd yn yr Atodlen ac ar y Cynlluniau.

Aros cyfyngedig

8. Heblaw fel y darparwyd yn Erthyglau 12 i 15, 17 ac 19 i 20 ni fydd i neb, heblaw yn ôl cyfarwyddyd neu gyda chaniatâd swyddog parcio / swyddog gorfodi sifil neu swyddog yr heddlu mewn lifrai, beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar unrhyw ffordd gyfyngedig y nodwyd cyfnod ar ei chyfer yn yr Atodlen ac ar y Cynlluniau yn ystod yr oriau cyfyngedig pryd y caniateir aros,

(a) am gyfnod hwy nag a nodwyd ar y Cynlluniau, neu

(b) os aeth cyfnod heibio sy'n llai na'r hyn a nodwyd ar y Cynlluniau fel y cyfnod na fydd i'r cerbyd ddychwelyd ynddo ers cyfnod blaenorol o aros gan yr un cerbyd ar yr un ochr o'r darn o'r ffordd.

Parthau llwytho

(9) Heblaw fel y darparwyd yn Erthyglau 12 i 14 a 17 ni fydd i neb, heblaw yn ôl cyfarwyddyd neu gyda chaniatâd swyddog parcio / swyddog gorfodi sifil mewn lifrai neu swyddog yr heddlu mewn lifrai, beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros yn unrhyw barth llwytho a nodwyd yn yr

## SECTION 2 – PROHIBITION AND RESTRICTION OF WAITING

Prohibition of Waiting

6. Save as provided in Articles 12 to 15, 17 to 18 and 20 no person shall, except upon the direction or with the permission of a parking attendant / civil enforcement officer in uniform or police constable in uniform, cause or permit any vehicle to wait at any time on any prohibited road specified in the Schedule and on the Plans.

Restriction of waiting

7. Save as provided in Articles 12 to 15, 17 to 18 and 20 no person shall, except upon the direction or with the permission of a parking attendant / civil enforcement officer in uniform or police constable in uniform, cause or permit any vehicle to wait on any restricted road during the restricted hours specified in the Schedule and on the Plans.

Limited waiting

8. Save as provided in Articles 12 to 15, 17 and 19 to 20 no person shall, except upon the direction or with the permission of a parking attendant / civil enforcement officer or police constable in uniform, cause or permit any vehicle to wait on any restricted road in respect of which there is specified in the Schedule and on the Plans a period during the restricted hours in which waiting is allowed,

(a) for a period longer than specified on the Plans, or

(b) if a period less than that specified on the Plans as being the period in which the vehicle shall not return has elapsed since a previous period of waiting by the same vehicle on the same side of length of road.

Loading areas

(9) Save as provided in Articles 12 to 14 and 17 no person shall, except upon the direction or with the permission of a parking attendant / civil enforcement officer in uniform or police constable in uniform, cause or permit any vehicle to wait in any loading area specified in the Schedule and

Atodlen ac ar y Cynlluniau oni bai ei fod o'r dosbarth penodedig a hynny ar gyfer llwytho neu ddadlwytho nwyddau mewn cysylltiad ac adeilad cyffiniol ar gyfer masnach neu fusnes.

on the Plans unless it is of the specified class and except for the loading or unloading of goods in connection with adjoining trade or business premises.

Cyfyngu ar lwytho a dadlwytho

(10) Heblaw fel y darparwyd yn Erthyglau 12 i 13 a 17 ni fydd i neb, heblaw yn ôl cyfarwyddyd neu gyda chaniatâd swyddog parcio / swyddog gorfodi sifil neu swyddog yr heddlu mewn lifrai, beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros at ddiben galluogi llwytho nwyddau i neu ddadlwytho nwyddau o'r cerbyd ar unrhyw ffordd dim llwytho yn ystod yr oriau dim llwytho fel y nodwyd yn yr Atodlen ac ar y Cynlluniau.

Restriction on loading and unloading

(10) Save as provided in Articles 12 to 13 and 17 no person shall, except upon the direction or with the permission of a parking attendant / civil enforcement officer or police constable in uniform, cause or permit any vehicle to wait for the purpose of enabling goods to be loaded to or unloaded from the vehicle on any no loading road during the no loading hours as specified in the Schedule and on the Plans.

Cyfyngu ar stopio

(11) Heblaw fel y darparwyd yn Erthyglau 12 i 13 a 17 ni fydd i neb, heblaw yn ôl cyfarwyddyd neu gyda chaniatâd swyddog parcio / swyddog gorfodi sifil neu swyddog yr heddlu mewn lifrai, beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd stopio ar unrhyw ffordd dim stopio yn ystod yr oriau dim stopio fel y nodwyd yn yr Atodlen ac ar y Cynlluniau.

Restriction on stopping

(11) Save as provided in Articles 12 to 13 and 17 no person shall, except upon the direction or with the permission of a parking attendant / civil enforcement officer or police constable in uniform, cause or permit any vehicle to stop on any no stopping road during the no stopping hours as specified in the Schedule and on the Plans.

Argyfyngau

(12) Ni fydd dim yn Erthyglau 6 i 11 o'r Gorchymyn hwn yn golygu ei bod yn anghyfreithlon peri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar unrhyw un o'r ffyrdd, darnau o ffyrdd neu ar ochrau ffyrdd neu barthau llwytho a nodwyd ynddynt gyhyd ag y bo angen i alluogi defnyddio'r cerbyd mewn argyfwng at ddibenion tân ac achub, ambiwlans neu'r heddlu:

Emergencies

(12) Nothing in Articles 6 to 11 of this Order shall render it unlawful to cause or permit any vehicle to wait in any of the roads, lengths of road or on the sides of road or loading areas specified therein for so long as may be necessary to enable the vehicle to be used in an emergency for fire and rescue, ambulance or police purposes:

Esemptiadau cyffredinol

(13) Ni fydd dim yn Erthyglau 6 i 11 o'r Gorchymyn hwn yn golygu ei bod yn anghyfreithlon peri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros yn unrhyw un o'r ffyrdd, darnau o ffyrdd neu ar ochrau ffyrdd neu barthau llwytho a nodwyd ynddynt gyhyd ag y bo angen i alluogi:

General exemptions

(13) Nothing in Articles 6 to 11 of this Order shall render it unlawful to cause or permit any vehicle to wait in any of the roads, lengths of road or on the sides of road or loading areas specified therein for so long as may be necessary to enable:

(a) defnyddio'r cerbyd, os nad oes modd ei ddefnyddio'n hwylus at ddiben o'r fath ar unrhyw ffordd arall, mewn cysylltiad ag unrhyw rai o'r gweithrediadau canlynol,

(a) the vehicle, if it cannot conveniently be used for such purpose in any other road, to be used in connection with any of the following operations, namely:-

sef:-

(i) gweithrediadau adeiladu, dodrefnu siopau, diwydiannol neu ddymchwel;

(ii) symud unrhyw rwystr i draffig;

(iii) cynnal, gwella neu ailadeiladu'r cyfryw ddarnau neu ochrau o ffyrdd; a

gosod, codi, newid neu drwsio yn neu ar dir ar bwys y cyfryw ddarnau neu ochrau o ffyrdd unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, pibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw system delathrebu,

(b) y cerbyd, os nad oes modd ei ddefnyddio'n hwylus at ddibenion o'r fath ar unrhyw ffordd arall, i gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu ei gontractwyr yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol yr awdurdod hwnnw;

(c) cerbyd y Post Brenhinol neu ddarparwr gwasanaeth cyffredinol arall (fel y diffiniwyd yn adran 4(3) a (4) o Ddeddf Gwasanaethau Post 2000) i'w ddefnyddio at ddiben danfon a/neu gasglu llythyrau;

(d) mewn unrhyw achos lle bo pwy bynnag sy'n rheoli'r cerbyd,

(i) yn gorfod stopio yn ôl y gyfraith;

(ii) yn gorfod stopio er mwyn atal damwain, neu

(iii) yn cael ei atal rhag symud ymlaen gan amgylchiadau oddi allan i'w reolaeth;

14. Ni fydd dim yn Erthyglau 6 i 9 o'r Gorchymyn hwn yn golygu ei bod yn anghyfreithlon i beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros yn unrhyw un o'r ffyrdd, darnau o ffyrdd neu ar ochrau ffyrdd neu barthau llwytho a nodwyd ynddynt gyhyd ag y bo angen i alluogi llwytho nwyddau i neu ddadlwytho nwyddau o gerbyd (neu ddanfon neu gasglu nwyddau neu farsiandïaeth).

15. Ni fydd dim yn Erthyglau 6 i 8 o'r Gorchymyn hwn yn golygu ei bod yn anghyfreithlon i beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar unrhyw un o'r ffyrdd, darnau o ffyrdd neu ar ochrau ffyrdd a nodwyd ynddynt gyhyd ag y bo angen i alluogi i rywun fyrddio neu ddisgyn o'r cerbyd.

(i) building, shop fitting, industrial or demolition operations;

(ii) the removal of any obstruction to traffic;

(iii) the maintenance, improvement or reconstruction of the said lengths or sides of road; and

the laying, erection, alteration or repair in or on land adjacent to the said lengths or sides of road of any sewer or of any main, pipe or apparatus for the supply of gas, water or electricity or of any telecommunications system,

(b) the vehicle, if it cannot conveniently be used for such purposes in any other road, to be used in the service of a local authority or its contractors in pursuance of that authority's statutory powers or duties;

(c) the vehicle of the Royal Mail or other universal service provider (as defined in section 4(3) and (4) of the Postal Services Act 2000) to be used for the purpose of delivering and/or collecting mail;

(d) in any case where the person in control of the vehicle,

(i) is required by law to stop;

(ii) is obliged to stop so as to prevent an accident, or

(iii) is prevented from proceeding by circumstances outside his/her control;

14. Nothing in Articles 6 to 9 of this Order shall render it unlawful to cause or permit any vehicle to wait in any of the roads, lengths of road or on the sides of road or loading areas specified therein for so long as may be necessary to enable goods to be loaded to or unloaded from a vehicle (or goods or merchandise to be delivered or collected).

15. Nothing in Articles 6 to 8 of this Order shall render it unlawful to cause or permit any vehicle to wait in any of the roads, lengths of road or on the sides of road specified therein for so long as may be necessary to enable a person to board or alight from the vehicle.

16. Ni fydd dim yn Erthyglau 6 i 11 o'r Gorchymyn hwn yn golygu ei bod yn anghyfreithlon i beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar fan parcio awdurdodedig.

17. Ni fydd dim yn Erthyglau 6 i 11 yn atal unrhyw un rhag peri neu ganiatáu i gerbyd aros ar unrhyw ffordd waharddedig neu gyfyngedig os yw'n dangos yn y man perthnasol tystysgrif hepgor ddilys a roddwyd gan y Cyngor a'r cerbyd yn aros yn unol â thelerau ac amodau'r cyfryw hawlen neu dystysgrif.

Cerbydau pobl anabl yn aros

18. Ni fydd dim yn Erthyglau 6 i 7 yn golygu ei bod yn anghyfreithlon i beri neu ganiatáu i gerbyd rhywun anabl sy'n dangos bathodyn rhywun anabl a disg parcio yn y man perthnasol, lle bydd y gyrrwr neu rywun arall â gofal dros y cerbyd wedi nodi'r amser pryd y dechreuodd y cyfnod aros, aros ar ffordd waharddedig neu ffordd gyfyngedig am gyfnod heb fod dros dair awr (heb fod yn gyfnod gydag egwyl rhyngddynt o lai nag un awr ers cyfnod blaenorol o aros gan yr un cerbyd ar yr un darn o ffordd neu ar yr un ochr o ffordd ar yr un diwrnod):

Ond bod y cerbyd yn union cyn neu ar ôl parcio wedi cael neu ar fin cael ei yrru neu ddefnyddio gan yr unigolyn a dderbyniodd y bathodyn neu, yn ôl fel y bo'n digwydd, ei ddefnyddio ar gyfer cludo rhywun neu rywrai anabl fel teithiwr neu deithwyr.

19. Ni fydd dim yn Erthygl 8 yn golygu ei bod yn anghyfreithlon peri neu ganiatáu i gerbyd rhywun anabl sy'n dangos bathodyn rhwyun anabl yn y man perthnasol aros ar ochrau ffyrdd lle caniateir aros:

Ond bod y cerbyd yn union cyn neu ar ôl parcio wedi cael neu ar fin cael ei yrru neu ddefnyddio gan yr unigolyn a dderbyniodd y bathodyn neu, yn ôl fel y bo'n digwydd, ei ddefnyddio ar gyfer cludo rhywun neu rywrai anabl fel teithiwr neu deithwyr.

16. Nothing in Articles 6 to 11 of this Order shall render it unlawful to cause or permit any vehicle to wait upon an authorised parking place.

17. Nothing in Articles 6 to11 shall prevent any person from causing or permitting a vehicle to wait in any prohibited or restricted road if it is displaying in the relevant position a valid waiver certificate issued by the Council and the vehicle is waiting in accordance with the terms and conditions of the said permit or certificate.

Waiting by disabled persons' vehicle

18. Nothing in Articles 6 to 7 shall render it unlawful to cause or permit a disabled person's vehicle which displays in the relevant position a disabled person's badge and a parking disc, on which the driver or other person in charge of the vehicle has marked the time at which the period of waiting began, to wait in a prohibited road or a restricted road for a period not exceeding three hours (not being a period separated by an interval of less than one hour from a previous period of waiting by the same vehicle in the same length of road or on the same side of road on the same day):

Provided that the vehicle immediately before or after the act of parking has been or is about to be driven or used by the person to whom the badge has been issued or, as the case may be, used for the carrying of disabled person(s) as passenger(s).

19. Nothing in Article 8 shall render it unlawful to cause or permit a disabled person's vehicle which displays in the relevant position a disabled person's badge to wait on the sides of roads where waiting is permitted:

Provided that the vehicle immediately before or after the act of parking has been or is about to be driven or used by the person to whom the badge has been issued or, as the case may be, used for the carrying of disabled person(s) as

passenger(s).

Safleoedd Cerbydau Hur

20. Ni fydd dim yn Erthyglau 6 i 8 yn atal unrhyw un rhag peri neu ganiatáu i gerbyd hur trwyddedig aros yn unrhyw safle cerbydau hur a awdurdodwyd yn briodol yn ystod y cyfnod gweithredu a nodwyd yn yr Atodlen ac ar y Cynlluniau.

21. Ni fydd i neb beri neu ganiatáu i gerbyd hur aros ar safle cerbydau hur yn ystod y cyfnod gweithredu heblaw at ddiben ceisio hurio allan.

22. Ni fydd i neb beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar safle cerbydau hur oddi allan i gyfnod gweithredu'r safle cerbydau hur fel y manylwyd yn yr Atodlen ac ar y Cynlluniau.

Tystysgrif hepgor

23. Gall y Cyngor gyhoeddi tystysgrif hepgor ar ôl derbyn cais ysgrifenedig gydag o leiaf 5 diwrnod gwaith o rybudd a gall osod telerau ac amodau fel y bo'n briodol.

24. Mae modd diddymu tystysgrif hepgor ar unrhyw adeg yn ôl disgresiwn y Cyngor yn unig a bydd yn peidio â bod yn ddilys felly ar unwaith. Bydd diddymu o'r fath yn cael ei hysbysu'n ysgrifenedig i ddeiliad y dystysgrif yn unrhyw gyfeiriad y cred y Cyngor yw cyfeiriad y cyfryw unigolyn a bydd i'r dystysgrif gael ei hildio i'r Cyngor ar unwaith.

## ADRAN 3 – MANNAU PARCIO

**Mannau parcio pobl anabl**

Dynodi mannau parcio pobl anabl

25. Trwy hyn dynodir y darnau ffyrdd a nodwyd fel y cyfryw ar y Cynlluniau i'w defnyddio yn amodol ar ddarpariaethau canlynol y Gorchymyn hwn fel mannau parcio pobl anabl ac mae modd eu defnyddio yn amodol ar ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn ar y fath ddiwrnodau ac yn ystod y fath oriau ag a nodwyd yn yr

Hackney Carriage Stands

20. Nothing in Articles 6 to 8 shall prevent any person from causing or permitting a licensed hackney carriage to wait in any duly authorised hackney carriage stand during the period of operation specified in the Schedule and on the Plans.

21. No person shall cause or permit a hackney carriage to wait on a hackney carriage stand during the period of operation other than for the purpose of plying for hire.

22. No person shall cause or permit any vehicle to wait on a hackney carriage stand outside the period of operation of the hackney carriage stand as specified in the Schedule and on the plans.

Waiver certificate

23. The Council may issue a waiver certificate on receipt of written application with at least 5 days working notice and may impose terms and conditions as appropriate.

24. A waiver certificate may be cancelled at any time at the sole discretion of the Council and shall thereupon immediately cease to be valid. Notification of such cancellation shall be in writing to the holder of the certificate at any address that the Council believes to be that person's address and the certificate shall forthwith be surrendered to the Council.

## SECTION 3 – PARKING PLACES

**Disabled person's parking places**

Designation of disabled person's parking places

25. The parts of roads identified as such on the Plans are hereby designated to be used subject to the following provisions of this Order as disabled person's parking places and may be used subject to the provisions of this Order on such days and during such hours as are specified in the Schedule and on the Plans.

Atodlen ac ar y Cynlluniau.

26. Ni fydd i neb beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros mewn man parcio rhywun anabl yn ystod yr oriau a ganiateir oni bai fod bathodyn dilys rhywun anabl yn cael ei ddangos ar y cerbyd hwnnw yn y man perthnasol.

Cyfnod aros hwyaf

27. Heblaw fel y darparwyd yn Erthygl 12, ni fydd i neb beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros mewn man parcio rhywun anabl yn hwy na'r cyfnod hwyaf a bennwyd ar gyfer y man parcio yn yr Atodeln ac yn y Cynlluniau.

Ond bod y cerbyd yn union cyn neu ar ôl parcio wedi cael neu ar fin cael ei yrru neu ddefnyddio gan yr unigolyn a dderbyniodd y bathodyn neu, yn ôl fel y bo'n digwydd, ei ddefnyddio ar gyfer cludo rhywun neu rywrai anabl fel teithiwr neu deithwyr.

28. Lle bo cyfyngiad ar y cyfnod aros mewn man parcio rhywun anabl fel y mynegwyd yn yr Atodlen ac ar y Cynlluniau, bydd i yrrwr cerbyd wrth adael y cerbyd mewn man parcio rhywun anabl, ddangos bathodyn rhywun anabl a disg parcio yn y man perthnasol, lle nodwyd yr amser pryd y dechreuodd y cyfnod aros a symud y cerbyd hwnnw o'r cyfryw fan parcio o fewn yr amser hwyaf a bennwyd.

29. Lle bo cyfnod yn cael ei nodi yn yr Atodlen ac yn y Cynlluniau o fewn yr hwn rhaid peidio â gadael cerbyd eto mewn man parcio rhywun anabl, ni fydd i neb ganiatáu neu beri i'r cerbyd aros eto yn y man parcio hwnnw nes bydd y cyfnod penodedig hwnnw wedi dod i ben.

**Mannau parcio hawlen yn unig**

Mannau parcio hawlen yn unig

30. Yn amodol ar ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn, bydd i fannau parcio a nodwyd yn yr Atodlen ac ar y Cynlluniau fel mannau parcio deiliaid hawlen yn unig gael eu defnyddio gan ddeiliaid hawlen yn unig

26. No person shall cause or permit any vehicle to wait in a disabled person's parking place during the permitted hours unless there is displayed on that vehicle in the relevant position a valid disabled person's badge.

Maximum period of waiting

27. Save as provided in Article 12, no person shall cause or permit any vehicle to remain in a disabled person's parking place for longer than the maximum period specified for that parking place in the Schedule and on the Plans.

Provided that the vehicle immediately before or after the act of parking has been or is about to be driven or used by the person to whom the badge has been issued or, as the case may be, used for the carrying of disabled person(s) as passenger(s).

28. Where as indicated in the Shcedule and on the Plans there is a limit on the time of stay on a disabled person's parking place, the driver of a vehicle shall upon leaving the vehicle in the disabled person's parking place, display in the relevant position a disabled person's badge and a parking disc, on which has been marked the time at which the period of waiting began and shall remove that vehicle from the said parking place within the maximum time specified.

29. Where a period within which a vehicle must not be left again in the disabled person's parking place is specified in the Schedule and on the Plans, no person shall permit or cause the vehicle to wait again in that parking place until the expiry of that specified period.

**Permit only parking places**

Permit only parking places

30. Subject to the provisions of this Order, parking places identified in the Schedule and on the Plans as permit holders only parking places shall only be used by permit holders and only during the permitted hours

ac yn ystod yr oriau a ganiateir yn unig.

31. Heblaw fel y darparwyd yn Erthyglau 12 i 15, 17 a 19 i 20 ni fydd i neb beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros mewn man parcio deiliaid hawlen yn unig yn ystod y cyfnodau a nodwyd yn yr Atodlen ac ar y Cynlluniau oni bai fod hawlen ddilys yn cael ei dangos yn y man perthnasol ar y cerbyd hwnnw ar gyfer y man parcio hwnnw.

Dosbarthiadau cerbydau y mae hawlenni'n berthnasol iddynt

32. Yn amodol ar ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn, fe all hawlenni gael eu cyhoeddi i ddosbarthiadau cerbydau sy'n gerbydau teithwyr, cerbydau cludo nwyddau, beiciau modur, cerbydau pobl anabl a cherbydau cleifion.

Hawlenni i'w dangos ar gerbydau

33. Bob amser y bydd cerbyd yn cael ei adael mewn man parcio deiliaid hawlen yn unig yn ystod yr oriau a ganiateir, bydd i'w yrrwr beri dangos yn y man perthnasol hawlen ddilys a gyhoeddwyd ar gyfer y cerbyd hwnnw ac sy'n berthnasol i'r man parcio lle gadawyd y cerbyd hwnnw.

Dull o sefyll mewn man parcio

34. Bydd i bob cerbyd sy'n cael ei adael mewn man parcio rhywun anabl neu hawlen yn unol â darpariaethau blaenorol y Gorchymyn hwn sefyll:

(i) os yw'r man parcio mewn stryd unffordd, fel bod y cerbyd yn wynebu'r un cyfeiriad â llif y traffig ac ar bwys ymyl y ffordd gerbydau;

(ii) os nad yw'r man parcio mewn stryd unffordd, fel bod ochr chwith neu ochr i mewn y cerbyd ar bwys ymyl chwith y ffordd gerbydau;

(iii) fel nad yw'r pellter rhwng ymyl y ffordd gerbydau ac olwyn agosaf y cerbyd yn ddim mwy na 500mm;

(iv) fel nad yw unrhyw ran o'r cerbyd yn rhwystro unrhyw gerbyd rhag mynd i mewn neu allan o'r adeilad gerllaw ochr y ffordd y mae'r cerbyd yn aros arni; a

(v) fel bod pob rhan o'r cerbyd o fewn

31. Save as provided in Articles 12 to 15, 17 and 19 to 20 no person shall cause or permit any vehicle to wait in a permit holders only parking place during the periods specified in the Schedule and on the Plans unless there is on display in the relevant position on that vehicle a valid permit for that parking place.

Classes of vehicles for which permits are applicable

32. Subject to the provisions of this Order, permits may be issued to classes of vehicles being passenger vehicles, goods carrying vehicles, motor-cycles, disabled persons vehicles and invalid carriages.

Permits to be displayed on vehicles

33. At all times during which a vehicle is left in a permit holders only parking place during the permitted hours, the driver thereof shall cause to be displayed in the relevant position a valid permit issued in respect of that vehicle relating to the parking place within which that vehicle is left.

Manner of standing in a parking place

34. Every vehicle left in a disabled person's and permit parking place in accordance with the foregoing provisions of this Order shall stand:

(i) if the parking place is in a one-way street, so that the vehicle is facing according to the direction of the traffic flow and adjacent to the edge of the carriageway;

(ii) if the parking place is not in a one-way street, so that the left or near side of the vehicle is adjacent to the left-hand edge of the carriageway;

(iii) so that the distance between the edge of the carriageway and the nearest wheel of the vehicle is not more than 500mm;

(iv) so that no part of the vehicle obstructs any vehicular means of ingress to or egress from premises adjacent to the side of the road on which the vehicle is waiting; and

(v) so that every part of the vehicle is within

terfynau'r man parcio.

Newid sefyllfa cerbyd mewn man parcio

35. Lle bo unrhyw gerbyd yn sefyll mewn man parcio'n groes i ddarpariaethau'r Erthygl flaenorol, gall swyddog parcio / swyddog gorfodi sifil neu swyddog heddlu mewn lifrai newid neu beri newid sefyllfa'r cerbyd er mwyn i'w sefyllfa gydymffurfio â'r darpariaethau hynny.

Symud cerbyd o fan parcio

36. Lle bo swyddog parcio / swyddog gorfodi sifil o'r farn y torrwyd neu na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn o ran cerbyd a adawyd yn unrhyw ran o fan parcio, fe all symud neu beri symud y cerbyd o'r man parcio a darparu ar gyfer dal y cerbyd yn ddiogel, lle bo'n cael ei symud felly.

Symud cerbyd mewn man parcio mewn argyfwng

37. Os bydd argyfwng, gall swyddog heddlu mewn lifrai symud neu beri symud unrhyw gerbyd a adawyd mewn man parcio i unrhyw fan y bydd yn ei ystyried yn briodol, a darparu ar gyfer dal y cerbyd yn ddiogel.

Atal defnyddio man parcio

38. (1) Gall unrhyw un a awdurdodwyd yn briodol gan y Cyngor atal defnyddio man parcio neu unrhyw ran ohono pryd bynnag y bydd yn ystyried bod gwaharddiad o'r fath yn angenrheidiol o fewn rheswm:

(a) at ddiben hwyluso symud traffig neu hyrwyddo ei ddiogelwch;

(b) at ddiben unrhyw waith adeiladu, dymchwel neu gloddio ar bwys y man parcio, cynnal, gwella neu ailadeiladu'r briffordd neu lanhau cafnau yn neu ar bwys y man parcio, gosod, codi, newid neu drwsio yn neu ar bwys y man parcio unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, pibell, neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw system delathrebu neu osod, cynnal neu dynnu

the limits of the parking place.

Alteration of position of a vehicle in a parking place

35. Where any vehicle is standing in a parking place in contravention of the provisions of the preceding Article, a parking attendant / civil enforcement officer or police officer in uniform may alter or cause to be altered the position of the vehicle in order that its position shall comply with those provisions.

Removal of a vehicle from a parking place

36. Where a parking attendant / civil enforcement officer is of the opinion that any of the provisions contained in this Order have been contravened or not complied with in respect of a vehicle left in any part of a parking place, he / she may remove or cause to be removed the vehicle from the parking place and, where it is so removed, shall provide for the safe custody of the vehicle.

Movement of a vehicle in a parking place in an emergency

37. A police officer in uniform may move or cause to the moved, in case of emergency, to any place he / she thinks fit, any vehicle left in a parking place and shall provide for the safe custody of the vehicle.

Suspension of use of a parking place

38. (1) Any person duly authorised by the Council may suspend the use of a parking place or any part thereof whenever they consider such suspension reasonably necessary:

(a) for the purpose of facilitating the movement of traffic or promoting its safety;

(b) for the purpose of any building operation, demolition or excavation adjacent to the parking place, the maintenance, improvement or reconstruction of the highway or the cleansing of gullies in or adjacent to the parking place, the laying, erection, alteration or repair in or adjacent to the parking place or any sewer or of any main, pipe , or apparatus for the supply of gas, water or

unrhyw arwydd traffig;

(c) er cyfleuster deiliaid mangre ar bwys y man parcio ar unrhyw adeg symud dodrefn i neu o un swyddfa neu dŷ annedd ar bwys y man parcio o neu i storfa, swyddfa arall neu dŷ annedd arall;

(d) ar unrhyw adeg pan fydd yn debygol oherwydd rhyw atyniad arbennig y bydd unrhyw stryd yn orlawn neu'n cael ei rhwystro: neu

(e) er cyfleuster deiliaid mangre ar bwys y man parcio ar adegau priodasau neu angladdau, neu ar achlysuron arbennig eraill.

(2) Gall swyddog heddlu mewn lifrai atal defnyddio man parcio neu unrhyw ran ohono am ddim hwy na phedair awr ar hugain pryd bynnag y bydd yn ystyried gwaharddiad o'r fath yn angenrheidiol o fewn rheswm at ddiben hwyluso symud traffig neu hyrwyddo ei ddiogelwch.

(3) Bydd i unrhyw un neu swyddog heddlu sy'n atal defnyddio man parcio neu unrhyw ran ohono yn unol â darpariaethau paragraff (1) neu, yn ôl fel y bo'n digwydd, baragraff (2) o'r Erthygl hon felly osod neu beri gosod arwydd traffig yn neu ar bwys y man parcio hwnnw neu ran ohono yn dangos bod cerbydau'n cael eu gwahardd rhag aros.

39. Ni fydd i neb beri neu ganiatáu i gerbyd fod yn aros mewn man parcio neu unrhyw ran ohono yn ystod y fath gyfnod ag y bydd y Cyngor neu swyddog Heddlu wedi atal y man parcio hwnnw neu ran ohono ac yn arddangos rhybudd o waharddiad o'r fath ar neu ger y man parcio hwnnw.

40. Ni fydd dim yn yr Erthygl flaenorol yn golygu ei bod yn doriad i beri neu ganiatáu gadael cerbyd mewn man parcio a ataliwyd, sy'n dangos yn y man perthnasol tystysgrif hepgor ddilys a gyhoeddwyd gan y Cyngor, a bod y cerbyd yn aros yn unol â thelerau ac amodau'r cyfryw dystysgrif.

electricity or of any telecommunications system or the placing, maintenance or removal of any traffic sign;

(c) for the convenience or occupiers of premises adjacent to the parking place on any occasion of the removal of furniture to or from one office or dwelling-house adjacent to the parking place from or to a depositary, another office or dwelling-house;

(d) on any occasion on which it is likely by reason of some special attraction that any street will be thronged or obstructed: or

(e) for the convenience of occupiers of premises adjacent to the parking place at times of weddings or funerals, or on other special occasions.

(2) A police officer in uniform may suspend for not longer than twenty-four hours the used of a parking place or any part thereof whenever they consider such suspension reasonably necessary for the purpose of facilitating the movement of traffic or promoting its safety.

(3) Any person or police officer suspending the use of a parking place or any part thereof in accordance with the provisions of paragraph (1) or, as the case may be, paragraph (2) of this Article shall thereupon place or cause to be placed in or adjacent to that parking place or part thereof a traffic sign indicating that waiting by vehicles is prohibited.

39. No person shall cause or permit a vehicle to be waiting in a parking place or any part thereof during which such period as the Council or a Police officer has suspended that parking place or part thereof and exhibits notice of such suspension on or near that parking place.

40. Nothing in the preceding Article shall render it a contravention to cause or permit a vehicle to be left in a parking place which has been suspended, which displays in the relevant position a valid waiver certificate issued by the Council, and the vehicle is waiting in accordance with the terms and

conditions of the said certificate.

<u>Cyfyngiadau ar ddefnyddio cerbydau mewn man parcio</u>

41. Yn ystod yr oriau a ganiateir ni fydd i neb ddefnyddio unrhyw fan parcio neu unrhyw gerbyd tra bo mewn man parcio mewn cysylltiad â gwerthu neu gynnig neu amlygu ar werth unrhyw nwyddau i unrhyw un yn neu ger y man parcio neu mewn cysylltiad â gwerthu neu gynnig ar werth eu medr mewn waith llaw neu eu gwasanaethau yn unrhyw gymhwyster arall:

Ond na fydd dim yn yr Erthygl hon yn atal gwerthu nwyddau o gerbyd os yw'r cerbyd yn gerbyd teithwyr, cerbyd cludo nwyddau, beic modur neu gerbyd claf a'r nwyddau'n cael eu danfon neu eu cymrwyd ar unwaith i adeilad ar bwys y cerbyd o ble y gwnaed y gwerthiant ac nad yw'r cerbyd yn aros am gyfnod hwy nag 20 munud neu'r fath gyfnod hwy ag y gall swyddog parcio / swyddog gorfodi sifil ei gymeradwyo.

<u>Esemptiadau i gyfyngiad ar gerbyd yn aros mewn man parcio</u>

42. (1) Ar waethaf darpariaethau blaenorol y Gorchymyn hwn gall unrhyw gerbyd aros yn ystod yr oriau a ganiateir yn unrhyw ran o fan parcio os na ataliwyd defnyddio'r rhan honno ac:

(a) os yw'r cerbyd yn aros cyhyd ag y bo angen at ddiben galluogi i unrhyw un fyrddio neu ddisgyn o gerbyd neu lwytho arno neu ddadlwytho oddi arno eu bagiau personol;

(b) os yw'r cerbyd yn aros oherwydd yr ataliwyd y gyrrwr rhag symud ymlaen oherwydd amgylchiadau tu hwnt i'w reolaeth neu fod aros o'r fath yn angenrheidiol er mwyn osgoi damwain;

(c) os yw'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio gan y frigâd dân, ambiwlans neu'r heddlu neu, heb fod yn gerbyd teithwyr, yn cael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol a'i bod yn angenrheidiol o fewn rheswm i'r cerbyd aros yn y fan lle mae'n

<u>Restrictions of the use of vehicles in a parking place</u>

41. During the permitted hours no person shall use any parking place or any vehicle whilst it is in a parking place in connection with the sale or offering or exposing for sale any goods to any person in or near the parking place or in connection with the selling or offering for sale of their skill in handicraft or their services in any other capacity:

Providing that nothing in this Article shall prevent the sale of goods from a vehicle if the vehicle is a passenger vehicle, a goods carrying vehicle, a motorcycle or an invalid carriage and the goods are immediately delivered at or taken into premises adjacent to the vehicle from which the sale is effected and the vehicle does not wait for a period exceeding 20 minutes or such longer period as a parking attendant / civil enforcement officer may approve.

<u>Exemptions to restriction on waiting by a vehicle in a parking place</u>

42. (1) Notwithstanding for foregoing provisions of this Order any vehicle may wait during the permitted hours in any part of a parking place if the use of that part has not been suspended and if:

(a) the vehicle is waiting for so long as may be necessary for the purpose of enabling any person to board or alight from a vehicle or load thereon or unload therefrom their personal luggage;

(b) the vehicle is waiting owing to the driver being prevented from proceeding by circumstances beyond their control or to such waiting being necessary in order to avoid an accident;

(c) the vehicle is being used for fire brigade, ambulance or police or, not being a passenger vehicle, is being used in the service of a local authority in pursuance of statutory powers or duties provided that in all the circumstances it is reasonably necessary in the exercise of such powers or

aros dan yr holl amgylchiadau wrth arfer pwerau o'r fath neu wrth gyflawni dyletswyddau o'r fath;

(d) os yw'r cerbyd yn aros cyhyd ag y bo angen i alluogi iddo gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â symud unrhyw rwystr i draffig;

(e) os yw'r cerbyd yn aros –

(i) tra bo pecynnau post a gyfeiriwyd at adeilad ar bwys y man parcio lle mae'r cerbyd yn aros yn cael eu dadlwytho o'r cerbyd neu, ar ôl eu dadlwytho oddi yno, yn cael eu danfon; neu

(ii) tra bo pecynnau post yn cael eu casglu i'w llwytho ar y cerbyd o adeilad neu flychau postio ar bwys y man parcio lle mae'r cerbyd yn aros neu, ar ôl cael eu casglu felly, yn cael eu llwytho arno;

(f) mewn unrhyw achos arall os yw'r cerbyd yn aros at ddiben danfon neu gasglu nwyddau neu lwytho neu ddadlwytho'r cerbyd mewn adeilad ar bwys y man parcio lle mae'r cerbyd yn aros ac nad yw'r cerbyd yn aros am gyfnod hwy nag ugain munud neu am y fath gyfnod hwy ag y gall swyddog parcio / swyddog gorfodi sifil neu swyddog heddlu mewn lifrai ei gymeradwyo.

Gosod arwyddion traffig ac ati

43. Bydd i'r Cyngor:

(a) osod a chynnal arwyddion traffig yn dangos terfynau pob man parcio

(b) osod a chynnal arwyddion traffig o ddyluniad cymeradwy i Weinidog priodol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dangos bod modd defnyddio mannau parcio o'r fath yn ystod yr oriau a ganiateir ar gyfer gadael cerbydau o'r dosbarthau penodedig yn unig, ac

(c) gwneud y fath waith arall ag sydd ei angen o fewn rheswm at ddibenion gweithredu man parcio'n foddhaol.

## RHAN 4 – TORRI'R GORCHYMYN

Torri'r gorchymyn

44. Os caiff cerbyd ei adael mewn man parcio yn ystod yr oriau a ganiateir neu ar

in the performance of such duties for the vehicle to wait in the place in which it is waiting;

(d) the vehicle is waiting for so long as may be necessary to enable it to be used in connection with the removal of any obstruction to traffic;

(e) the vehicle is waiting –

(i) while postal packets addressed to the premises adjacent to the parking place in which the vehicle is waiting are being unloaded from the vehicle or, having been unloaded therefrom, are being delivered; or

(ii) while postal packets are being collected for the loading on the vehicle from premises or posting boxes adjacent to the parking place in which the vehicle is waiting or, having been so collected, are being loaded thereon;

(f) in any other case the vehicle is waiting for the purpose of delivering or collecting goods or loading or unloading the vehicle at premises adjacent to the parking place in which the vehicle is waiting and the vehicle does not wait for a period exceeding twenty minutes or for such longer period as a parking attendant / civil enforcement officer or police officer in uniform may approve.

Placing of traffic signs etc.

43. The Council shall:

(a) place and maintain traffic signs indicating the limits of each parking place

(b) place and maintain traffic signs of a design approved by the appropriate Minister for the Welsh Assembly Government indicating that such parking places may be used during the permitted hours for the leaving only of the vehicles of the specified classes, and

(c) carry out such other work as it reasonably required for the purposes of the satisfactory operation of a parking place.

## PART 4 - CONTRAVENTION OF ORDER

Contravention

44. If a vehicle is left in a parking place during the permitted hours or in any road or

unrhyw ffordd neu ddarn o ffordd yn groes i'r rheolau neu heb gydymffurfio â gofynion y Gorchymyn hwn bydd cosb yn daladwy ac fe all y cerbyd gael ei symud o'r fan honno.

Rhybudd talu cosb

45. Yn achos cerbydau y gall gosb fod yn daladwy ar eu cyfer, bydd yn ddyletswydd y swyddog parcio / swyddog gorfodi sifil i osod mewn lle amlwg ar y cerbyd rhybudd sydd i gynnwys y manylion canlynol:

(a) Nod cofrestru'r cerbyd neu, lle bo'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio dan drwydded fasnachu, rhif y plât masnachu sydd ar y cerbyd;

(b) Ar ba sail y mae'r swyddog parcio / swyddog gorfodi sifil yn credu bod Cosb yn daladwy o ran y cerbyd hwnnw;

(c) Swm y Gosb sydd i'w thalu;

(d) Dy bydd y gosb sydd i'w thalu'n cael ei gostwng yn ôl cyfran neu swm penodedig os bydd y gosb yn cael ei thalu cyn diwedd cyfnod o 14 diwrnod yn dechrau gyda dyddiad y rhybudd;
(e) y gall y Cyngor gyflwyno rhybudd i'r perchennog sef pwy bynnag sy'n ymddangos fel perchennog y cerbyd os nad yw'r gosb yn cael ei thalu cyn diwedd y cyfnod o 28 diwrnod; a
(f) y cyfeiriad lle rhaid anfon taliad y Gosb.

Dull o dalu'r gosb

46. Bydd i'r gosb gael ei thalu yn unol â'r cyfarwyddiadau sydd ar y Rhybudd Talu Cosb, cyn pen 28 diwrnod ar ôl cyflwyno'r rhybudd talu cosb un ai;

(a) gyda siec, drafft banc, archeb arian neu archeb bost i'w danfon neu anfon drwy'r post fel y mynegwyd ar y rhybudd talu cosb, neu
(b) mewn arian parod, fel y mynegwyd ar y rhybudd talu cosb yn bersonol yn unrhyw

length of road in contravention or without complying with the requirements of this Order a penalty charge shall be payable and/or the vehicle may be removed from that location.

Penalty charge notice

45. In the case of vehicles in respect of which a penalty charge may have been incurred, it shall be the duty of the parking attendant / civil enforcement officer to attach to the vehicle in a conspicuous position a notice which shall include the following particulars:

(a) the registration mark of the vehicle or, where the vehicle is being used under a trade licence, the number of the trade plate carried by the vehicle;

(b) the grounds on which the parking attendant / civil enforcement officer believes that a Penalty Charge is payable in respect of that vehicle;
(c) the amount of Penalty Charge required to be paid;
(d) that if the penalty charge is paid before the end of the period of 14 days beginning with the date of the notice, the amount of the penalty charge will be reduced by the specified proportion or amount;
(e) that if the penalty charge is not paid before the end of the 28 day period a Notice to owner may be served by the Council on the person appearing to be the owner of the vehicle; and
(f) the address to which payment of the Penalty Charge must be sent.

Manner of payment of penalty charge

46. The penalty charge shall be paid in accordance with the instructions contained on the Penalty Charge Notice, within 28 days of the issue of the penalty charge notice either;

(a) by cheque, bankers' draft, money order or postal order delivered or sent by post as indicated on the penalty charge notice, or

(b) In cash, as indicated on the penalty charge notice in person at any Allpay outlet

siop *Allpay* sy'n derbyn taliadau o'r fath, neu

(c) gyda cherdyn credyd neu gerdyn debyd dros y ffôn gan ddefnyddio'r rhif a nodwyd ar y rhybudd talu cosb

Bydd i'r taliad gael ei dderbyn erbyn 16:00 fan bellaf ar yr 28ain diwrnod yn dilyn y diwrnod pryd y cafwyd y fath Gosb neu'r 14eg diwrnod yn dilyn y diwrnod pryd y cafwyd y Gosb os yw'r gosb ostyngol yn cael ei thalu.

Ond os bydd y cyfryw 28ain neu 14eg diwrnod yn disgyn ar ddiwrnod pan fydd swyddfeydd Partneriaeth Prosesu Cosbau Cymru, neu fan penodedig arall ar gau, bydd y cyfnod ar gyfer talu'r cyfryw Gosb i'r Cyngor yn cael ei ymestyn tan 16:00 ar y diwrnod llawn nesaf y bydd swyddfeydd Partneriaeth Prosesu Cosbau Cymru, neu fan penodedig arall, ar agor.

47. Os caiff y gosb ei thalu cyn diwedd cyfnod o 14 diwrnod yn dechrau gyda dyddiad cyhoeddi'r rhybudd, bydd maint y gosb yn lleihau yn ôl y gyfran benodedig.

48. Os nad yw'r perchennog yn talu'r gosb erbyn diwedd y cyfnod 28 diwrnod, fe all rhybudd i'r perchennog gael ei gyhoeddi ac, os nad yw'r taliad yn cael ei wneud o fewn 28 diwrnod ychwanegol, fe all gael ei gynyddu 50% wrth gyhoeddi tystysgrif taliad yn unol â darpariaethau paragraff 6 o atodlen 6 i Ddeddf 1991.

49. Gall parhau i beidio â thalu'r gosb beri dyfarniad yn y Llys Sirol yn erbyn y perchennog i alluogi i'r Cyngor adennill y taliadau dyledus.

<u>Arwyddion fel tystiolaeth</u>

50. Bydd y manylion a roddwyd yn y rhybudd talu cosb a osodwyd ar gerbyd yn unol ag Erthygl 45 yn cael eu trin fel tystiolaeth yn unrhyw achos perthnasol i beidio â thalu cosb o'r fath.

<u>Cyfyngiad ar dynnu rhybuddion</u>

which accepts such payments, or

(c) by credit card or debit card over the phone using the number specified on the penalty charge notice

Payment shall be received not later than 16:00 on the 28th day following the day on which such Penalty Charge was incurred or the 14th day following the day on which the Charge was incurred if the reduced charge is paid.

Provided that if the said 28th or 14th day falls upon a day on which the Wales Penalty Processing Partnership offices, or other nominated place are closed, the period within which payment of the said Penalty Charge shall be made to the Council shall be extended until 16:00 on the next full day on which the Wales Penalty Processing Partnership Offices, or other nominated place are open.

47. If the penalty charge is paid before the end of the period of 14 days beginning with the date of issue of the notice, the amount of the penalty charge will be reduced by the specified proportion.

48. If the owner fails to pay the penalty charge by the end of the 28 day period, a notice to owner may be served; and if the charge is not paid within a further 28 days it may be increased by 50% on the issue of a charge certificate in accordance with the provisions of paragraph 6 of schedule 6 of the 1991 Act.

49. Continuing failure to pay the penalty charge may result in a judgement in the County Court against the owner to enable the Council to recover the payments due.

<u>Indications as evidence</u>

50. The particulars given in the penalty charge notice attached to a vehicle in accordance with Article 45 shall be treated as evidence in any proceedings relating to failure to pay such penalty charge.

<u>Restriction on removal of notices</u>

51. Lle gosodwyd rhybudd talu cosb ar gerbyd yn unol â darpariaethau Erthygl 45, ni fydd i neb heblaw gyrrwr y cerbyd, swyddog yr heddlu mewn lifrai, swyddog parcio / swyddog gorfodi sifil neu rywun arall a awdurdodwyd yn briodol gan y Cyngor dynnu'r rhybudd oddi ar y cerbyd oni bai yr awdurdodwyd hwy i wneud hynny gan geidwad y cerbyd.

51. Where a penalty charge notice has been attached to a vehicle in accordance with the provisions of Article 45 no person, not being the driver of the vehicle, a police constable in uniform, a parking attendant / civil enforcement officer or some other person duly authorised by the Council shall remove the notice from the vehicle unless authorised to do so by the keeper of the vehicle.

<u>Atal rhag symud</u>

52. Os gadawyd cerbyd ar ôl cael cosb, gall swyddog parcio / swyddog gorfodi sifil mewn lifrai neu rywun yn gweithredu dan ei gyfarwyddyd osod dyfais ar y cerbyd i'w atal rhag symud a rhybudd yn unol â gofynion adran 69(1) o Ddeddf Traffig y Ffyrdd 1991 ac ni fydd y cerbyd hwnnw'n cael ei ryddhau o'r ddyfais heblaw trwy dalu'r gosb neu, yn ôl fel y bo'n digwydd, y gosb ostyngol, ynghyd â'r fath ffi ryddhau ag y bydd y Cyngor yn ei fynnu.

<u>Immobilisation</u>

52. If a vehicle is left after a penalty charge has been incurred, a parking attendant / civil enforcement officer in uniform or a person acting under his/her direction may attach to the vehicle an immobilisation device and a notice in accordance with the requirements of section 69(1) of the Road Traffic Act 1991 and that vehicle shall only be released from the device on payment of the penalty charge, or as the case may be reduced penalty charge, along with such release fee as may be required by the Council.

<u>Symud cerbyd ymaith</u>

53. Lle bo swyddog parcio / swyddog gorfodi sifil wedi symud neu beri symud cerbyd yn unol ag Erthyglau 36, 37 neu 44,

(a) bydd iddo / iddi ddarparu ar gyfer dal y cerbyd yn ddiogel;

(b) bydd hawl gan y Cyngor i adennill oddi wrth y sawl sy'n gyfrifol y fath daliadau o ran symud, cadw a gwaredu'r cerbyd ag y gall eu pennu o bryd i'w gilydd;

(c) bydd darpariaethau Deddf 1984 fel y newidiwyd yn berthnasol i waredu'r fath gerbydau ag a symudwyd gan neu ar ran y Cyngor yn unol â'r Erthygl hon.

<u>Removal of vehicle</u>

53. Where a parking attendant / civil enforcement officer has removed or caused to be removed a vehicle in accordance with Articles 36, 37 or 44,

(a) he / she shall provide for the safe custody of the vehicle;

(b) the Council shall be entitled to recover from the person responsible such charges in respect of the removal, storage and disposal of the vehicle as it might prescribe from time to time;

(c) the provisions of the 1984 Act as amended shall apply to the disposal of such vehicles removed by or on behalf of the Council pursuant to this Article.

54. Ni fydd dim yn Erthyglau 36, 44 neu 52, yn berthnasol i gerbyd sy'n dangos bathodyn dilys rhywun anabl mewn man perthnasol.

54. Nothing in Articles 36, 44 or 52, shall apply in respect of a vehicle displaying in a relevant position a valid disabled person's badge.

55. Bydd y cyfyngiadau a osodwyd trwy'r Gorchymyn hwn yn ychwanegol at ac nid yn rhan-ddirymu unrhyw gyfyngiad neu ofynion a bennwyd gan unrhyw reoliadau a

55. The restrictions imposed by this Order shall be in addition to and not in derogation from any restriction or requirements imposed by any regulations made or having

wnaed neu sy'n effeithiol fel pe gwnaed hwynt dan y Ddeddf neu trwy neu dan unrhyw ddeddfiad arall.

effect as if made under the Act or by or under any other enactment.

**RHAN 5 - DIDDYMIADAU**

Bydd y rhan hynny o'r Gorchymyn Cydgrynhoi (Cyfyngiadau Aros ar y Stryd a Mannau Parcio) Cyngor Sir Ynys Môn 2007 a Gorchymyn Cyngor Sir Ynys Môn (Gwaharddiad a Chyfyngiad Aros) (Amryw Safleoedd Amlwch) 2010 yn cael eu diwygio.

**PART 5 - REVOCATIONS**

That part of The Isle of Anglesey County Council (On Street Waiting Restrictions and Parking Places) Consolidation Order 2007 and The Isle of Anglesey County Council (Prohibition and Restrictions of Waiting) (Various Locations Amlwch) Order 2010 shall be amended accordingly.


Dyddiedig 10/06/2015 Dated

CYFLAWNWYD FEL GWEITHRED TRWY OSOD SÊL CYFFREDIN CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL yng ngŵydd :-

EXECUTED AS A DEED BY AFFIXING THE COMMON SEAL OF CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL in the presence of :-

3807

Cyfreithiwr/Solicitor






© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021 Arolwg Ordnans 100023412
© Crown copyright and database rights 2014 Ordnance Survey 100023412
Ni chaniateir i chi gopio, is-drwyddedu, rhannu neu werthu unrhyw ran o'r data yma i drydydd parti mewn unrhyw ffurf.
You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form


CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL


CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfa'r Sir
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW


GORCHYMYN TRAFFIG ARFAETHEDIG/
PROPOSED TRAFFIC ORDER,
STRYD SALEM A LON GOCH,
SALEM STREET AND LON GOCH,
AMLWCH.




DIM AROS AR UNRHYW ADEG
NO WAITING AT ANY TIME


© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021 Arolwg Ordnans 100023412
© Crown copyright and database rights 2014 Ordnance Survey 100023412

Ni chaniateir i chi gopio, is-drwyddedu, rhannu neu werthu unrhyw ran o'r data yma i drydydd parti mewn unrhyw ffurf.
You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfa'r Sir
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

GORCHYMYN TRAFFIG ARFAETHEDIG/
PROPOSED TRAFFIC ORDER,
LON GOCH,AMLWCH.





© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021 Arolwg Ordnans 100023412
© Crown copyright and database rights 2014 Ordnance Survey 100023412

Ni chaniateir i chi gopio, is-drwyddedu, rhannu neu werthu unrhyw ran o'r data yma i drydydd parti mewn unrhyw ffurf.
You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfa'r Sir
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

GORCHYMYN TRAFFIG ARFAETHEDIG/
PROPOSED TRAFFIC ORDER,
QUEEN STREET,AMLWCH.




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021 Arolwg Ordnans 100023412
© Crown copyright and database rights 2014 Ordnance Survey 100023412

Ni chaniateir i chi gopio, is-drwyddedu, rhannu neu werthu unrhyw ran o'r data yma i drydydd parti mewn unrhyw ffurf.
You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfa'r Sir
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

GORCHYMYN TRAFFIG ARFAETHEDIG/
PROPOSED TRAFFIC ORDER,
BRO TREHINON,AMLWCH.

## ATODLEN / SCHEDULE

(1) Dim Aros ar unrhyw adeg

a) Stryd Salem

Ochr ddwyreiniol

O'r gyffordd gyda Maes Salem am bellter o 99 metr i gyfeiriad y gogledd.

b) Lôn Goch

Ochr ogleddol

O bwynt 40 metr i'r dwyrain gogledd ddwyrain o'r gyffordd hefo Tan y Fynwent/Gas Lane am bellter o 12 metr i gyfeiriad y dwyrain gogledd ddwyrain.

(2) Dim Aros ar unrhyw adeg/Dim Llwytho/Dadlwytho

Stryd y Frenhines

Ochr orllewinol

O bwynt 41 metr i'r gogledd gogledd orllewin o'r gyffordd gyda'r ffordd gyswllt dienw o Stryd Salem i'r A5025 am bellter o 14 metr mewn cyfeiriad gogledd gogledd ddwyreiniol.

(3) Dim Cyfyngiad ar barcio

Bro Trehirion

Ochr ddwyreiniol

O bwynt 11 metr i'r de de ddwyrain o'r gyffordd gyda'r B5111 Stryd Mona i bwynt 23 metr i'r de de ddwyrain o'r gyffordd honno.

(1) No waiting at any time

a) Salem Street

East Side

From the junction with Maes Salem for a distance of 99 metres in a northerly direction.

b) Lôn Goch

North Side

From a point 40 metres east north east of the junction with Tan y Fynwent/Gas Lane for a distance of 12 metres in an east north easterly direction.

(2) No Waiting at any time/No Loading/Unloading

Queen Street

West Side

From a point 41 metres north north west of the junction with the unnamed link road from Salem Street to the A5025 for a distance of 14 metres in a north north easterly direction.

(3) Derestricted Parking

Bro Trehirion

East Side

From a point 11 metres south south east of the junction with the B5111 Mona Street to a point 23 metres south south east of that junction.

Dyddiad .........10/06/2015......... Dated

**GORCHYMYN**
**CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL**
**(GORCHYMYN RHEOLI TRAFFIG)**
**(AMRYW LEOLIADAU, AMLWCH)**
**2015**

**CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL**
**(TRAFFIC REGULATION ORDER)**
**(VARIOUS LOCATIONS, AMLWCH)**
**ORDER 2015**

ROBYN W JONES
RHEOLWR GWASANAETHAU CYFREITHIOL/LEGAL SERVICES MANAGER
CYNGOR SIR YNYS MON/ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
SWYDDFA'R SIR
LLANGEFNI
YNYS MON
LL77 7TW